**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018**

**9.30 - 13.10**

**Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam**

**Yn bresennol**:

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwyr: | Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd)<br>William Callaway<br>Yr Athro Jerry Hunter<br>Gwilym Dyfri Jones<br>Dr Hefin Jones<br>Pedr ap Llwyd<br>Llinos Roberts<br>Ieuan Wyn |
| Sylwedyddion: | Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)<br>Savanna Jones, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) |
| Swyddogion: | Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr<br>Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd<br>Catherine Rees, Ysgrifennydd<br>Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd<br>Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth |
| Ymddiheuriadau: | Yr Athro Iwan Davies<br>Dr Gwyn Lewis<br>Dr Rhodri Llwyd Morgan<br>Yr Athro Hywel Thomas |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau gweithredu | Cyfnod amser |
|---|---|---|---|
| **1. Croeso a chyflwyniad** | 1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ac yn arbennig i Pedr ap Llwyd a Llinos Roberts fel aelodau newydd o'r Bwrdd.<br><br>1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.<br><br>1.3 Estynnodd y Prif Weithredwr longyfarchiadau i'r Cadeirydd ar ei urddo i wisg las yr Orsedd, Eisteddfod Genedlaethol 2018.<br><br>1.4 Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Deon, Dr Hefin Jones, ar ennill Medal Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol 2018. | | |
| **2. Datganiadau o ddiddordeb** | 2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.<br><br>2.2 Datganodd Gwilym Dyfri Jones ddiddordeb yn Eitem 8 – Adroddiad y Prif Weithredwr ac Eitem 11 – Materion Cyllid, am ei fod yn gyflogedig gan sefydliad sy'n cyflwyno cais i weithredu fel canolfan hyfforddi athrawon.<br><br>2.3 Datganodd y Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr ddiddordeb yn Eitem 6b – Gweithdrefn penodi ac ail-benodi Cyfarwyddwyr, y Cadeirydd ac aelodau allanol o bwyllgorau.<br><br>2.4 Datganodd William Callaway ddiddordeb yn Eitem 6 – penodi aelodau i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | am fod Bethan Emanuel yn gyn-gydweithiwr iddo ym Mhrifysgol De Cymru. | | |
| **3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2018** | 3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018. | | |
| **4. Materion yn codi** | 4.1 Eitem 4.2 – Ymddiriedolaeth William Salesbury<br>Adroddwyd mai'r drefn a gytunwyd yw cyflwyno Ysgoloriaeth William Salesbury yng nghynulliad blynyddol y Coleg. Nid oedd yr enillydd wedi gallu mynychu eleni.<br><br>4.2 Eitem 4.3 – Prosiect Seren<br>Adroddwyd nad oedd modd trefnu cyflwyniad ar gyfer y cyfarfod hwn.<br><br>4.3 Eitem 14 – Ysgoloriaethau<br>Adroddwyd bod argymhellion ynghylch yr Ysgoloriaethau wedi cael eu trafod gyda Llywodraeth Cymru a bod y manylion gweithredol i'w cytuno cyn diwedd tymor yr haf. | | |
| **5. Materion Archwilio a Risg**<br><br>**(Eitem 5a)**<br><br>**(Eitem 5b)** | **Pwyllgor Archwilio a Risg**<br><br>5.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018.<br><br>**Y Gofrestr Risg**<br><br>5.2 Cafwyd adroddiad ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf gan William Callaway, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Trafodwyd y risgiau ac yn benodol risg sylweddol yn y nifer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf traean o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniwyd y Gofrestr Risg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Eitem 5c)** | **Rhestr ffioedd**<br><br>5.3 Derbyniwyd a chymeradwywyd y rhestr ffioedd diwygiedig i aelodau pwyllgorau a phaneli.<br><br>**Buddsoddi**<br><br>5.4 Trafodwyd argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg i benodi cwmni Sarasin fel buddsoddwyr y Coleg. Trafodwyd agwedd foesol y Coleg tuag at fuddsoddi ac argymhellwyd sicrhau bod cwmni Sarasin yn gallu sicrhau cronfa fuddsoddi foesegol gref sy'n osgoi alcohol, arfau, tybaco a phornograffi cyn ymrwymo i unrhyw fuddsoddiad. Cytunwyd i lunio polisi buddsoddi moesol i'r Coleg i'w drafod yng nghyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn nhymor yr hydref. | Trafod agweddau moesegol gyda Sarasin a llunio polisi i'w drafod yn PAR a BC | Erbyn 24 Hydref 2018 |
| **6. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Eitem 6)**<br><br>**(Atodiad 6a)**<br><br>**(Atodiad 6b)** | **Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**<br><br>6.1 Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, Meirion Prys Jones.<br><br>**Gweithdrefn benodi**<br><br>6.2 Derbyniwyd gweithdrefnau penodi Cyfarwyddwyr, y Cadeirydd ac aelodau allanol o bwyllgorau. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Pwyllgor ail ystyried y weithdrefn ar gyfer ail benodi Cadeirydd am dymor pellach.<br><br>6.3 Yn dilyn trafodaeth argymhellwyd:<br>• gwirio arfer da sefydliadau eraill wrth symleiddio proses ail-benodi cyfarwyddwyr | PPSLl i ail ystyried y weithdrefn<br><br>PPDLl i drafod yr argymhellion | Cyfarfod nesaf<br><br>Cyfarfod nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Atodiad 6c)** | • adolygu'r cyfansoddiad yn y dyfodol i gynyddu tymor gwasanaeth y Cadeirydd i 4 blynedd i fod yn gyson â'r cyfarwyddwyr<br>• gynnwys profiad sector uwchradd yn y weithdrefn penodi<br>• ystyried rôl a phroses penodi Deon y Coleg, fel mater penodol ac, o bosibl, ar wahân i benodi aelodau'r Bwrdd.<br><br>**Holiadur gwerthuso'r Cyfarwyddwyr**<br><br>6.4 Derbyniwyd adroddiad ar ymatebion holiadur gwerthuso'r Cyfarwyddwyr. Nodwyd bod pob cyfarwyddwr wedi cwblhau'r holiadur. Trafodwyd a chytunwyd ar yr argymhellion.<br><br>**Penodi Cyfarwyddwyr newydd**<br><br>6.5 Nodwyd ymddiswyddiad Ellen Jones; diwedd tymor Dr Gwyn Lewis ar 31 Gorffennaf 2018, nad oedd yn dymuno ail dymor; a diwedd ail dymor yr Athro Iwan Davies ac Ieuan Wyn yn ystod 2018/19.<br><br>6.6 Nodwyd yr angen i annog menywod i ymgeisio ar gyfer aelodaeth y Bwrdd a chofio bod angen ystod o arbenigedd gan gynnwys maes hyfforddi athrawon.<br><br>6.7 Derbyniwyd yr argymhellion i benodi 4 cyfarwyddwr newydd yn ystod y flwyddyn nesaf i'w hysbysebu fis Medi.<br><br>**Llais myfyrwyr ar lefel Bwrdd**<br><br>6.8 Derbyniwyd yr argymhelliad i wahodd dau sylwedydd o blith myfyrwyr i gyfarfodydd y Bwrdd gan nad oes modd bellach enwebu unigolion i fod yn Gyfarwyddwyr o'r Coleg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Atodiad 6ch)** | 6.9 Nodwyd bod Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru wedi enwi Gwyneth Sweatman, Llywydd-etholedig a Gethin Morgan, Swyddog-etholedig y Gymraeg, fel sylwedyddion 2018/19.<br><br>**Aelod o'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**<br><br>6.10 Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant i benodi Wyn Mears fel aelod allanol newydd o'r pwyllgor ar ddiwedd tymor Rhiannon Lloyd, sef 31 Gorffennaf 2018.<br><br>**Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**<br><br>6.11 Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant i benodi Bethan Emanuel a Rhys Harris fel aelodau allanol i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Nodwyd bod un lle gwag i'w lenwi maes o law.<br><br>6.12 Nodwyd bod yr Athro Jerry Hunter, Pedr ap Llwyd a Llinos Roberts wedi cytuno i wasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar ran y Bwrdd.<br><br>**Cofnodion y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant**<br><br>6.13 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018. | | |
| **7. Bwrdd Academaidd**<br><br>**(Eitemau 7a/b)** | 7.1 Nodwyd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror a 2 Mai 2018.<br><br>7.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 2 Mai 2018, gan y Deon, Dr Hefin Jones. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 7.3 Adroddwyd bod cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cyflwyno papur ar adnoddau sydd yn cefnogi modiwlau cyfrwng Cymraeg. Nodwyd bod cyfrifoldeb ar y prifysgolion i ddarparu adnoddau addas, yn y Gymraeg.<br><br>7.4 Crybwyllwyd yn ogystal bod angen cadw golwg ar y lefel darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth i gwricwlwm prifysgolion newid. Ategwyd bod hyn yn digwydd yn barhaus drwy gyfrwng cyfarfodydd cynllunio a gynhelir gyda'r prifysgolion.<br><br>7.5 Nodwyd bod y Deon wedi cwblhau ei ymweliadau blynyddol i'r sefydliadau addysg uwch. Canmolodd waith y darlithwyr, myfyrwyr a'r canghennau.<br><br>7.6 Adroddodd yr Athro Jerry Hunter, Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, bod canllawiau cyhoeddi yn y Gymraeg ar y gweill ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) nesaf.<br><br>7.7 Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn adrodd ar faterion perthnasol o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd Academaidd. | | |
| **8. Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>**(Eitem 8)** | 8.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw.<br><br>**Cyllideb**<br><br>8.2 Adroddwyd bod trafodaethau cychwynnol ar gyllideb y Coleg ar gyfer 2019/20 yn digwydd, a bydd y Coleg yn cynllunio ar sail cynnal y lefelau cyllido presennol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(Atodiad 8a)** | **Cynllun Gweithredu 2018/19**<br><br>8.3 Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar y targedau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Coleg 2018/19.<br><br>**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**<br><br>8.4 Adroddwyd yn fyr ar ddata cychwynnol HESA 2016/17 sy'n ymddangos bod lleihad yn y niferoedd sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai cyd-destunau. Bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.<br><br>8.5 Atgoffwyd y Bwrdd bod y Coleg wedi sefydlu trefn monitro i adolygu unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i newidiadau ym mhatrwm cyllido'r Coleg o'r Cynllun Staffio Academaidd i Grantiau Pynciol.<br><br>**Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**<br><br>8.6 Adroddwyd y bydd cyhoeddiad ar ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a rôl benodol y Coleg mewn perthynas i'r maes fis Mehefin 2018.<br><br>**Y Gymraeg fel pwnc**<br><br>8.7 Derbyniwyd infograff Y Gymraeg ar Daith 2017, er gwybodaeth.<br><br>8.8 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Coleg arwain ar y gwaith o baratoi cynllun hybu'r Gymraeg fel pwnc fel rhan o'r Strategaeth Iaith 2050. Bwriedir lansio'r cynllun yn Eisteddfod Genedlaethol 2018. | Papur ar ddata yn y cyfarfod nesaf | 28 Tachwedd 2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **GDPR**<br><br>8.9 Adroddwyd bod y camau angenrheidiol wedi'u cymryd i sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â deddfwriaeth rheoliad diogelu data cyffredinol (GDPR).<br><br>**Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16**<br><br>8.10 Adroddodd y Cofrestrydd bod y Grŵp Cynllunio wedi datblygu cynigion penodol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod tymor yr haf 2018. Cytunwyd i ddarparu diweddariad llawn yn y cyfarfod nesaf.<br><br>**Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg**<br><br>8.11 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; Gwerddon a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Cymraeg Gwaith; a Chynllun Darlithwyr Cysylltiol, er gwybodaeth. | Adroddiad cynnydd | 28 Tachwedd 2018 |
| **9. Materion Staffio**<br><br>**(Eitem 10)** | 9.1 Cafwyd adroddiad llafar ar benodiadau staff. Adroddwyd bydd Mared Jones, yn dechrau ei swydd fel Swyddog Datblygu'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ar 2 Gorffennaf 2018. Bydd Dr Catrin Richards yn cyflenwi cyfnod mamolaeth Lois McGrath fel Swyddog Datblygu Hyfforddiant ac Ymchwil ar 3 Medi 2018.<br><br>9.2 Mewn ymateb i bryder aelodau ynghylch lles y staff yn y cyfarfod diwethaf, adroddwyd bod y gwaith yn parhau i fod yn sylweddol, yn enwedig yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 9.3 Adroddwyd bod cyfarfod staff wedi ei drefnu ar gyfer mis Gorffennaf a bydd arolwg boddhad staff yn yr hydref. Derbyniwyd strwythur staff y Coleg, er gwybodaeth. | | |
| **10. Materion Cyllid**<br>**(Eitem 11)** | **Llythyr Grant Llywodraeth Cymru**<br>10.1 Derbyniwyd Llythyr Gorchwyl y Coleg gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19. Adroddwyd bod y gyllideb ar gyfer addysg uwch yn gyson â llynedd.<br>**Cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2018/19 – 2022/23**<br>10.2 Derbyniwyd cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2018/19 - 2022/23.<br>10.3 Nodwyd bod y rhagamcanion wedi'u seilio ar y ffaith bod goblygiadau cyllido ychwanegol i unrhyw weithgareddau newydd ym maes ôl-16.<br>10.4 Nodwyd ymhellach, yn amodol ar gynnal y lefelau cyllido presennol ar gyfer addysg uwch, bod y rhagamcanion yn amlinellu'r model cyllido tan 2022/23.<br>10.5 Adroddwyd bod gwaith manwl wedi'i gwblhau ar fodelu grantiau pynciol a bydd trafodaethau cynllunio gyda'r prifysgolion yn adlewyrchu'r model hwn.<br>10.6 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y gyllideb rhagamcanol. Parheir i gyflwyno cyllideb fesul blwyddyn yng nghyfarfod y Bwrdd yn y gwanwyn. | Cyllideb flynyddol | Gwanwyn 2019 |
| **11.Cynllunio Academaidd**<br>**(Eitem 12)** | **Darpariaeth cyfrwng Cymraeg** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 11.1 Cafwyd crynodeb o brosesau monitro newidiadau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion gan Dr Dylan Phillips.<br><br>11.2 Yn ystod y drafodaeth nododd yr aelodau:<br><br>• pryder yng ngostyngiad y ddarpariaeth mewn rhai meysydd a sefydliadau<br>• y byddai data HESA ar gyfer cofrestriadau 2016/17 wedi dyddio<br>• diffygion gwybodaeth a ddarperir mewn prosbectws<br><br>11.3 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cysoni casglu data ynghylch y Gymraeg yn gyffredinol fel rhan o Strategaeth Iaith 2050.<br><br>11.4 Derbyniwyd yr argymhellion gan gynnwys adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol a chynnal adolygiad o'r model grantiau pynciol yn 2021/22. | Adroddiad i'r Bwrdd yn flynyddol<br>Adolygiad grantiau pynciol | Haf 2019<br><br>2021/22 |
| **12. PCET**<br><br>**(Eitem 9)** | 12.1 Cyflwynwyd dogfen ymgynghorol ar sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru gan y Prif Weithredwr.<br><br>12.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y canlynol:<br><br>• y byddai'r Coleg yn ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad technegol llawn sydd yn digwydd ar hyn o bryd<br>• perthynas y Comisiwn â'r Gymraeg o ran addysg ac o ran Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru. Nodwyd yr argymhelliad i sefydlu Panel o fewn strwythur y corff newydd i fod yn gyfrifol am y Gymraeg<br>• rhinweddau a gwendidau cyllido'r Coleg trwy gorff hyd braich | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • diffyg ymwybyddiaeth rhai aelodau o fwrdd presennol CCAUC o Gymru, cyd-destun polisi datganoledig, a'r iaith Gymraeg<br>• rhinweddau cyllido uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru<br><br>12.3 Amlinellodd Dr Cliona O'Neill safbwynt CCAUC a chroesawodd glywed farn y Bwrdd.<br><br>12.4 Cytunodd yr aelodau yn unfrydol nad oeddynt yn gefnogol i'r cynnig bod y Coleg yn cael ei gyllido drwy'r Comisiwn arfaethedig ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Nodwyd bod angen mwy o wybodaeth am y Comisiwn, yn ogystal â Chomisiwn arfaethedig y Gymraeg. Awdurdodwyd y swyddogion i ymateb yn llawn i'r ddogfen ymgynghori. | | |
| **13. Marchnata a Chyfathrebu**<br><br>**(Eitem 13)** | 13.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu'r Coleg ar gyfer 2018/19 tan 2021/22 gan Elin Williams, Rheolwr Cyfathrebu.<br><br>13.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y canlynol:<br><br>• Cynnull adrannau marchnata a chyfathrebu'r prifysgolion i drafod<br>• Cydweithio â Gyrfa Cymru<br>• Ymestyn negeseuon i flwyddyn 9<br>• Dechrau lledu negeseuon o oed cynradd<br>• Datblygu sgiliau Cymraeg yn gyffredinol<br>• Codi ymwybyddiaeth o waith y Coleg ymhlith athrawon – posibilrwydd o lysgennad athrawon<br>• Presenoldeb y Coleg mewn diwrnodau agored ysgolion<br>• Cydweithio â'r Mentrau Iaith | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Creu strategaeth ymgysylltu ar wahân<br><br>13.3 Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd yr argymhellion:<br><br>• ar gyfeiriad ac egwyddorion strategol Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu'r Coleg ar gyfer 2019/20 hyd at 2021/22 ynghyd â'r gweithgareddau craidd a nodir yn ei chynllun gweithredu gan gynnwys y pwyntiau a wnaed yn 13.2<br>• bod y Strategaeth yn cael ei chyflwyno'n raddol a'i mireinio yn ystod 2018/19 gan ystyried unrhyw benderfyniadau neu ddatblygiadau perthnasol o ran ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg, gan ddod yn llawn weithredol yn 2019/20. Bydd fersiwn nesaf y Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ym mis Medi 2018.<br><br>13.4 Yn y rhan hwn o'r cyfarfod gofynnwyd am adroddiad/data i gyfarfod nesaf y Bwrdd ar fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr. | Strategaeth i'r PCDC<br><br>Adroddiad data ar fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio'n Lloegr | 19 Medi 2018<br><br>28 Tachwedd 2018 |
| **14. Materion y Cadeirydd** | 14.1 Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â Phrifysgol Bangor ond nid y sefydliadau addysg uwch eraill.<br><br>14.2 Adroddodd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Dr Gwyn Lewis fel aelod o'r Bwrdd. Byddai'n ysgrifennu i ddiolch iddo'n ffurfiol am ei wasanaeth a'i waith gyda'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon.<br><br>14.3 Rhoddwyd y cyfle i Pedr ap Llwyd a Llinos Roberts i gyfleu eu hargraffiadau o'u cyfarfod cyntaf. Gwerthfawrogwyd safon y papurau a gylchredwyd o flaen llaw a phroffesiynoldeb y cyfarfod. | Cadeirydd i ysgrifennu at GL | Mehefin 2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf** | 15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 28 Tachwedd 2018, Prifysgol Abertawe<br>• 20 Mawrth 2019, Prifysgol Bangor<br>• 26 Mehefin 2019, Caerdydd<br>15.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith.<br>15.3 Diolchwyd i Sioned Roberts, Swyddog Cangen, Prifysgol Glyndŵr, am ei chymorth gyda threfnu'r cyfarfod. | | |